

Adolygu Gwasanaethau Llyfrgell Deithiol a Llyfrgell i'r Cartref Conwy

Rydym yn adolygu gwasanaethau Llyfrgell Deithiol a Llyfrgell i'r Cartref Conwy. Mae hyn i sicrhau ein bod yn parhau i ddarparu'r gwasanaeth i'r aelodau hynny o'r gymuned sydd ei angen fwyaf. Mae ymgynghoriad cyhoeddus yn cael ei gynnal rhwng 28 Ionawr a 10 Mawrth 2019, a hoffem glywed eich barn a'ch syniadau.

1 Ym mha rôl ydych chi'n ymateb i'r arolwg hwn?

- Preswlydd lleol
- Cwsmer y llyfrgell
- Grŵp / sefydliad
- Cyngorydd Tref / Cyngorydd Sir
- Aelod Cynulliad / Aelod Seneddol
- Arall

Os arall, nodwch: _____

Nodwch enw'r grŵp / sefydliad rydych yn ei gynrychioli (dewisol): _____

2 Nodwch eich cod post: _____

'Llyfrgell ar olwynion' yw Llyfrgell Deithiol Conwy sy'n dod a llyfrau, llyfrau llafar a gwybodaeth i chi yn eich cymuned. Ar hyn o bryd mae'n galw mewn 120 o lefydd; gan alw ym mhob man bob 4 wythnos, am oddeutu 20 munud.

Llyfrgell i'r Cartref Conwy yw'r gwasanaeth ar gyfer trigolion Conwy nad ydynt yn gallu cyrraedd llyfrgell na defnyddio'r Llyfrgell Deithiol, oherwydd eu bod mewn oed neu'n fregus. Mae'r Llyfrgell i'r Cartref yn ymweld â chwsmeriaid yn eu cartrefi bob 4 wythnos. Mae'n cynnig mynediad at ystod gyflawn stoc Llyfrgell Conwy yn seiliedig ar ddewisiadau darllen unigol y cwsmeriaid.

3 Ydych chi'n defnyddio'r Llyfrgell Deithiol ar hyn o bryd?

- Ydw Nac ydw

4 Ydych chi'n defnyddio'r Llyfrgell i'r Cartref ar hyn o bryd?

- Ydw Nac ydw

Os ydych yn defnyddio'r Llyfrgell Deithiol neu i'r Cartref, ydych chi hefyd yn defnyddio unrhyw rai o'r llyfrgelloedd ardal neu gymunedol yn rheolaidd?

- Ydw Nac ydw

Pa llyfrgell ydych chi'n ei defnyddio'n rheolaidd? _____

5 Ar ôl darllen y ddogfen ymgynghori a'r dewisiadau rydym yn eu hystyried, meddyliwch am sut byddai pob dewis yn effeithio arnoch chi?

	Dim effaith	Ychydig o effaith	Effaith fawr	Llawer iawn o effaith
Opsiwn 1: Newid dim a pharhau i ddarparu teithiau Llyfrgell Deithiol ac i'r Cartref presennol. Wrth i'r cerbydau ddod yn fwy annibynadwy, mi wneith arwain at golli gwasanaethau	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>
Opsiwn 2: Tynnu'r ddarpariaeth Llyfrgell Deithiol a chynnig y gwasanaeth Llyfrgell i'r Cartref i'r rhai sy'n bodloni'r meini prawf ar ei gyfer, neu'n gallu ymweld ag adeiladau llyfrgell / defnyddio'r Llyfrgell Ar-lein	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>
Opsiwn 3: Cyfuno darpariaeth y gwasanaethau Teithiol a Chartref. Cynnig gwasanaeth y Llyfrgell Deithiol i'r cymunedau hynny sy'n bell o adeiladau llyfrgell ac sydd â chludiant cyhoeddus cyfyngedig. Gweler yr Atodiad am lefydd y gellir eu cadw neu eu tynnu os dewisir Opsiwn 3	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>

Defnyddiwch y gofod hwn i egluro'ch ateb:

6 Ar ôl darllen y ddogfen ymgynghori a'r opsiynau rydym yn eu hystyried, sgoriwch yr awgrymiadau isod o 1-3 yn nhrefn blaenoriaeth, gyda 1 eich hoff ddewis:

Opsiwn 1: Newid dim a pharhau i ddarparu teithiau Llyfrgell Deithiol ac i'r Cartref presennol. Wrth i'r cerbydau ddod yn fwy annibynadwy, mi wneith arwain at golli gwasanaethau	<input type="checkbox"/>
Opsiwn 2: Tynnu'r ddarpariaeth Llyfrgell Deithiol a chynnig y gwasanaeth Llyfrgell i'r Cartref i'r rhai sy'n bodloni'r meini prawf ar ei gyfer, neu'n gallu ymweld ag adeiladau llyfrgell / defnyddio'r Llyfrgell Ar-lein	<input type="checkbox"/>
Opsiwn 3: Cyfuno darpariaeth y gwasanaethau Teithiol a Chartref. Cynnig gwasanaeth y Llyfrgell Deithiol i'r cymunedau hynny sy'n bell o adeiladau llyfrgell ac sydd â chludiant cyhoeddus cyfyngedig. Gweler yr Atodiad am lefydd y gellir eu cadw neu eu tynnu os dewisir Opsiwn 3	<input type="checkbox"/>

Allwch chi awgrymu opsiwn arall a fyddai'n cadw'r gwasanaethau Llyfrgell Deithiol ac i'r Cartref gyda chyllideb lai?

7 Os bydd Opsiwn 3 yn cael ei ddewis, ydych chi'n cytuno gyda'r meini prawf arfaethedig ar gyfer manau aros y Llyfrgell Deithiol (gweler Atodiad 3 am fannau aros y gellid eu cadw neu eu tynnu)?

Ydw

Nac ydw

Os 'Nac Ydw' oedd eich ateb defnyddiwch y gofod hwn i egluro'ch ateb ac awgrymu sut dylid newid y meini prawf:

8 Ydych chi'n cytuno gyda'r meini prawf ar gyfer y Llyfrgell i'r Cartref?

Ydw

Nac ydw

Os 'Nac Ydw' oedd eich ateb defnyddiwch y gofod hwn i egluro'ch ateb ac awgrymu sut dylid newid y meini prawf:

Mae'r cwestiynau canlynol yn ddewisol ond maent o gymorth i ni sicrhau bod ein gwasanaethau yn bodloni anghenion gwahanol fathau o bobl. Nid oes yn rhaid i chi ateb unrhyw rai o'r cwestiynau hyn os nad ydych am wneud hynny.

Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy yn casglu, prosesu ac yn cadw ystod eang o wybodaeth, yn cynnwys gwybodaeth bersonol, er mwyn darparu gwasanaethau o fudd i'r gymuned. Rydym yn gyfrifol am reoli'r wybodaeth sydd gennym ac rydym yn cydnabod bod y wybodaeth hon yn bwysig. Rydym yn cymryd ein cyfrifoldebau o ddifri a byddwn yn defnyddio gwybodaeth bersonol yn deg, yn gywir ac yn ddiogel, yn unol â gofynion cyfreithiol y ddeddfwriaeth Diogelu Data gyfredol.

Darllenwch Hysbysiad Preifatrwydd y Gwasanaeth Llyfrgell drwy ddilyn y ddolen ganlynol: <http://www.conwy.gov.uk/cy/Council/Access-to-Information/Privacy-Notices/Conwy-Library-Service-Privacy-Notice.aspx>

9 Beth yw eich ystod oedran?

O dan 16 oed

16-24 oed

25-44 oed

45-59 oed

60-74 oed

75+ oed

10 Beth yw eich rhyw?

- Gwryw Benyw
 Arall Dewis peidio â dweud

11 Ydych chi'n ystyried eich hun yn ofalwr?

- Ydw Nac ydw Dewis peidio â dweud

Gofalwr yw rhywun sy'n gofalu am rywun sydd â salwch neu anabledd hirdymor neu sydd mewn oed ac nad ydynt yn gallu ymdopi heb gymorth. Nid yw hyn yn cynnwys cymorth a roddir fel rhan o gyflogaeth am dâl.

12 A ydych chi'n ystyried bod gennych chi anabledd yn unol â thelerau Deddf Cydraddoldeb 2010?

- Ydw Nac ydw Dewis peidio â dweud

Mae Deddf Cydraddoldeb 2010 yn diffinio person anabl fel person sydd ag amhariad corfforol neu feddyliol, sydd ag effaith niweidiol sylweddol a hir dymor ar allu'r person i gyflawni gweithgareddau dyddiol arferol (h.y. wedi para neu y disgwylir iddo bara 12 mis o leiaf).

13 Beth yw eich dewis iaith? Ticiwch un blwch yn unig

- Iaith Arwyddion Prydain Cymraeg Saesneg
 Arall Dewis peidio â dweud

14 Beth yw eich hunaniaeth genedlaethol? Ticiwch un blwch yn unig

- Prydeinig Saesneg Albanaidd Gwyddel/
Gwyddeles o
Ogledd Iwerddon
 Cymreig Gwyddel/Gwyddeles Dewis peidio â dweud

Hunaniaeth Genedlaethol Arall, nodwch yma: _____

15 Beth yw eich grŵp ethnig? Ticiwch un blwch yn unig

- Gwyn Asiaidd Cymysg Dewis peidio â
dweud
 Du Tsieineaidd Sipsi / Teithiwr

Grŵp ethnig arall, nodwch yma: _____

Diolch yn fawr am ymateb i'r ymgynghoriad hwn